

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Gorchymyn (Cau Mynedfa Breifat i Eiddo ar
A4119 Deuoli Coed-elái) 2020**

Datganiad o'r Rhesymau

Mae'r Cyngor wedi gwneud y Gorchymyn (Cau Mynedfa Breifat i Eiddo ar A4119 Deuoli Coed-elái) 2020 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ("y Gorchymyn") yn unol â'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn adrannau 124 a 129 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ("Deddf 1980"), a'i effaith fydd atal hawl cerbydau i ddefnyddio mynedfeydd preifat ar hyd yr A4119 rhwng Cylchfan Coed-elái a Chylchfan Pencadlys y Gwasanaeth Tân i adeiladau cyfagos a darparu dulliau mynediad newydd i'r adeiladau hynny yn ôl yr angen.

Nododd y Cyngor 12 mynedfa breifat i adeiladau sy'n ffinio â'r rhan o'r A4119 sy'n destun deuoli arfaethedig o dan gynllun Deuoli'r A4119 Coed-elái. Mae'r Cyngor o'r farn bod y mynedfeydd preifat yma'n debygol o achosi perygl i draffig ar y briffordd, neu ymyrryd yn afresymol â hi.

Yn unol â'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn adran 129(1) o Ddeddf 1980, bydd y Cyngor yn darparu mynediad newydd i'r eiddo hynny â mynedfeydd preifat sydd angen eu cau yn unol ag adran 124 o Ddeddf 1980, ac eithrio Cyfeiriad g Dulliau Mynediad Preifat oherwydd bod y Cyngor yn fodlon

- (a) does dim angen rhesymol i gael mynediad i'r eiddo o'r briffordd dan sylw, neu
- (b) bod dull rhesymol arall o gael mynediad i'r eiddo ar gael neu y bydd y Cyngor yn ei ddarparu.

Mae'r mynedfeydd preifat fydd yn cau wedi'u nodi yn y llythyr sydd yn yr Atodlen i'r Gorchymyn ac fe'u dangosir gan linellau du solet ar y map y cyfeirir ato yng Ngorchymyn (Cau Mynedfeydd Preifat i Eiddo, Deuoli'r A4119, Coed-elái) 2020 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'r mynedfeydd newydd bydd y Cyngor yn eu darparu wedi'u nodi drwy rif yn yr Atodlen honno ac fe'u dangosir gan linell doredig denau ar y Map y cyfeirir ato yng Ngorchymyn (Cau Mynedfeydd Preifat i Eiddo, Deuoli'r A4119, Coed-elái) 2020 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

